**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 14 Mai 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chodwyd unrhyw ddatganiad o gysylltiad personol neu ragfarnus. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 16 Ebrill 2013 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan yr Arweinydd.* |
| **5** | DARPARIAETH YN SEILIEDIG AR FFYDD | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br>*(a) nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad;*<br>*(b) cymeradwyo'r ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer cynigion i gau Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Santes Ffraid o 31 Awst 2014 er mwyn hwyluso sefydliad ysgol ffydd newydd yn unol â'r penderfyniad canlynol;*<br>*(c) cymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar gyfer agor ysgol newydd o 1 Medi 2014 mewn partneriaeth ag Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys Gatholig ac Eglwys yng Nghymru;*<br>*(d) cytuno bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal dim hwyrach na haf 2015 i nodi'r safle lle byddai'r ysgol ffydd newydd ar y cyd, a*<br>*(e) cynnal ymgynghoriad pellach i archwilio'r posibilrwydd o ddarparu darpariaeth gynradd ar yr un safle â'r ysgol uwchradd ffydd ar y cyd* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 14 Mai 2013**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.* |
| **7** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet*. |
| **8** | TRAWSNEWID CLUDIANT – PROSIECT CYDWEITHREDOL RHANBARTHOL CLUDIANT TEITHWYR | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*<br><br>*(a) nodi'r Achos Busnes Amlinellol, yn derbyn yr opsiwn a ffafrir ac yn cytuno bod y prosiect rŵan yn cynnig datblygu Achos Busnes Llawn ar gyfer gweithredu uned integredig sengl yn raddol er mwyn darparu gwasanaethau cludo teithwyr yng Ngogledd Cymru a*<br><br>*(b) nodi y byddai unrhyw benderfyniad i weithredu uned integredig ond yn cael ei wneud ar ôl i'r Cynghorau ystyried a chymeradwyo'r Achos Busnes Llawn, ac y byddai trefniadau llywodraethu'r dyfodol ond yn cael sylw yn ystod datblygiad yr Achos Busnes Llawn.* |